# talkSPORT – Cynigion i leihau Darpariaeth AM

Datganiad

**Datganiad:**

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ebrill 2023

# Cynnwys

## Adran

Trosolwg 1

Cefndir a Fframwaith Cyfreithiol 2

Dadansoddiad a phenderfyniad Ofcom 8

# 1. Trosolwg

Cyflwynodd talkSPORT Limited ("talkSPORT") gais i leihau darpariaeth ei wasanaeth radio masnachol cenedlaethol AM (tonfedd ganolig) o 93% i 89.9%, drwy roi'r gorau i ddarlledu o'r pedwar safle canlynol o'i ddau ddeg dau safle trosglwyddydd:

- Dumfries (Dumfries & Galloway)
- Kingston upon Hull (East Riding of Yorkshire)
- Fern Barrow (Bournemouth)
- Greenside Scalp (Tayside)

Gwnaethom ymgynghori ar y cais gyda'r safbwynt rhagarweiniol o gymeradwyo'r cais. Rydym wedi ystyried yr ymatebion a gawsom wrth ddod i'n penderfyniad. Cawsom ddau ymateb yn cytuno â'r cynnig a phedwar yn anghytuno. Yn adran XX isod, rydym yn crynhoi sylwadau'r rhanddeiliaid, yn eu hasesu ac yn amlinellu ein casgliadau.

### Ein penderfyniadau – yn gryno

Mae Ofcom wedi penderfynu cymeradwyo'r cais a gyflwynwyd gan talkSPORT Limited i leihau ei ddarpariaeth AM (tonfedd ganolig) drwy roi'r gorau i ddarlledu o bedwar o'i safleoedd trosglwyddydd.

Dim ond crynodeb byr a syml sydd yn y trosolwg hwn o'r ddogfen. Mae'r penderfyniad rydym wedi'i wneud a'n rhesymeg wedi'i nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Cefndir a Fframwaith Cyfreithiol

2.1 Mae talkSPORT Limited ('talkSPORT', neu'r 'Trwyddedai') yn dal un o'r tair trwydded radio masnachol analog cenedlaethol[1] yn y DU a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Darlledu 1990 (y "Trwydded Darlledu"). O dan delerau ei Drwydded Darlledu, mae'n rhaid iddo ddarparu gwasanaeth radio sy'n wasanaeth siarad 24 awr sy'n cynnwys rhaglenni sy'n ymwneud yn bennaf â chwaraeon. Bydd bwletinau newyddion rheolaidd yn cael eu cynnwys.

2.2 Cafodd y Drwydded Darlledu ei ddyfarnu yn gyntaf drwy broses arwerthiant ym mis Gorffennaf 1994, ac mae wedi cael ei hadnewyddu ar dri achlysur. Cafodd y broses adnewyddu ddiweddaraf ei chwblhau ym mis Rhagfyr 2021, pan wnaethom benderfynu adnewyddu'r Drwydded Darlledu am gyfnod pellach o ddeng mlynedd, tan 31 Rhagfyr 2031.[2]

2.3 Ers ei lansio yn 1994, mae talkSPORT wedi cynyddu darpariaeth ei wasanaeth radio cenedlaethol AM yn raddol i ddarparu'r gwasanaeth i 95% o boblogaeth oedolion y DU drwy ychwanegu rhagor o safleoedd trosglwyddyddion o'i wirfodd. Yn 2019, cymeradwyodd Ofcom gais gan talkSPORT i leihau ei ddarpariaeth i 93%.

2.4 Yn ogystal â'r drwydded AM genedlaethol hon, mae talkSPORT hefyd yn darlledu'n genedlaethol drwy DAB ar amlblecs Digital One. Mae'r gwasanaeth hefyd ar gael dros y rhyngrwyd ac ar y teledu ar lwyfannau Freeview, Sky a Virgin Media.

2.5 Ar 10 Hydref 2022, cafodd Ofcom gyflwyniad ffurfiol gan talkSPORT yn gofyn am ganiatâd i ddiffodd un deg saith o safleoedd trosglwyddyddion AM, gan leihau ei rwydwaith trosglwyddyddion tonfedd ganolig cenedlaethol i bum safle pŵer uchel craidd. Dywedodd talkSPORT y byddai ei gynigion yn lleihau'r ddarpariaeth i 85%. Roedd ei gynllun ar gyfer rhoi'r newidiadau hyn ar waith fel a ganlyn:

a) **cau pedwar safle trosglwyddydd ar unwaith:** Dumfries (Dumfries & Galloway), Kingston upon Hull (East Riding of Yorkshire), Fern Barow (Bournemouth) a Greenside Scalp (Tayside). Nododd talkSPORT fod y pedwar safle trosglwyddydd hyn mewn ardaloedd a allai eisoes fod yn anhyfyw.

b) **cau'r un deg tri safle arall yn raddol**: Fareham (Hampshire), Stockton (Durham/North Yorkshire), Lydd (Kent), Southwick/Brighton (East Sussex), Dartford Tunnel (Kent), Clipstone (Nottinghamshire), Duxhurst (Surrey), Wallasey (Merseyside), Lisnagarvey (County Antrim, Northern Ireland), Boston (Lincolnshire), Wrekenton (Newcastle), Postwick (Norfolk), Rusthall (Tunbridge Wells). Mae talkSPORT wedi gofyn am hyblygrwydd i gau safleoedd hyn pan na fyddant bellach yn hyfyw.

2.6 Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, nid oes gan Ofcom y pŵer i roi caniatâd uwch i talkSPORT gynnal rhaglen dreigl o gau safleoedd trosglwyddyddion ar ddyddiadau i'w penderfynu gan talkSPORT. Felly, dim ond cynigion talkSPORT i gau pedwar safle

[1] Absolute Radio a Classic FM sydd â'r ddwy drwydded arall.

[2] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-3/renewal-independent-national-radio-licences

trosglwyddyddion ar unwaith y gwnaeth Ofcom eu hystyried. Mae talkSPORT wedi cael ei gynghori i gyflwyno cynigion newydd i Ofcom os yw'n dymuno cau ar unwaith unrhyw un o'r un deg tri safle arall y cyfeirir atynt uchod.

# Fframwaith Cyfreithiol

### Dyletswyddau statudol Ofcom

2.7 Mae'r dyletswyddau statudol sy'n arbennig o bwysig i asesu cynigion talkSPORT yn deillio o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003") a Deddf Darlledu 1990 ("Deddf 1990").

### Ein dyletswyddau dan Ddeddf Cyfathrebu 2003

2.8 Prif ddyletswyddau Ofcom, fel y'u nodwyd yn adran 3 o Ddeddf 2003, yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion cyfathrebu; a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth. Mae'n rhaid i Ofcom hefyd sicrhau'r canlynol( ymhlith pethau eraill):

2.9 y gwneir y defnydd gorau posib o delegraffiaeth ddi-wifr y sbectrwm electromagnetig;[3]

2.10 bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac wedi'u cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau;[4] a

2.11 cynnal amrywiaeth ddigonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol5.

2.12 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni roi sylw i'r ffactorau hynny sy'n ymddangos yn berthnasol i ni o dan yr amgylchiadau. Yn yr achos yma, byddwn ni'n ystyried bod diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y Deyrnas Unedig, a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol, yn hynod bwysig (adran 3(4)(l) o Ddeddf 2003).

2.13 Wrth wneud ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni hefyd o dan adran 3(3) o Ddeddf 2003 ystyried, ymhob achos, yr egwyddorion sy'n nodi y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac yn benodol dim ond at yr achosion lle mae angen cymryd camau.

### Ein dyletswyddau dan Ddeddf Darlledu 1990

2.14 Hefyd, o dan adran 85 o Ddeddf 1990, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau analog cenedlaethol yn cael eu darparu, a rhaid i un ohonynt gynnwys sgwrs yn bennaf a rhaid i un arall gynnwys cerddoriaeth nad yw'n boblogaidd yn llwyr neu'n bennaf.

---

[3] Adran 3(2)(a) o Ddeddf 2003.
[4] Adran 3(2)(c) o Ddeddf 2003.
[5] Adran 3(2)(d) o Ddeddf 2003.

# Trwydded darlledu talkSPORT

## Y trothwy rhesymol yn ymarferol ar gyfer sicrhau darpariaeth

2.15 Yn unol ag amod 2(1) y Drwydded Darlledu, mae'n rhaid i talkSPORT sicrhau bod ei wasanaeth radio analog yn gwasanaethu cymaint o'r DU fel sy'n rhesymol yn ymarferol am y tro.[6] Mae'r amod hwn o'r drwydded yn adlewyrchu adran 106(2) o Ddeddf 1990, sy'n darparu'r canlynol:

> Rhaid i drwydded genedlaethol neu leol gynnwys amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded sicrhau bod y gwasanaeth trwyddedig yn gwasanaethu cymaint o'r ardal neu'r lleoliad y mae wedi'i drwyddedu ar ei gyfer fel sy'n rhesymol yn ymarferol am y tro.

2.16 Mae'r Drwydded Darlledu yn ei gwneud yn ofynnol i talkSPORT sicrhau darpariaeth o'r fath drwy ddarlledu'r gwasanaeth trwyddedig o 22 safle trosglwyddyddion. Mae lleoliad a nodweddion technegol y trosglwyddyddion hyn wedi'u nodi yn y Drwydded Darlledu (Rhannau II a III o'r Atodiad).

### Methu â chydymffurfio â'r gofyniad ynghylch darpariaeth

2.17 Os methir â sicrhau bod y gwasanaeth radio trwyddedig yn gwasanaethu cymaint o'r DU fel sy'n rhesymol yn ymarferol am y tro, gall hyn olygu torri Amod 2(1) o'r Drwydded Darlledu.[7]

2.18 Mae'r ystod o gosbau y gellir eu rhoi i drwyddedeion am dorri amod trwydded yn cynnwys cosbau ariannol, cwtogi'r drwydded, atal y drwydded neu ddirymu trwydded. Mae'r cosbau hyn wedi'u nodi yn y drefn statudol, ynghyd â gofynion gweithdrefnol,[8] ac maent yn cael eu hadlewyrchu yn yr Amodau a nodir yn Rhan IV ('Amodau sy'n ymwneud â gorfodi trwyddedau') y Drwydded Darlledu.

### Amrywio'r drwydded

2.19 Mae gan Ofcom bŵer cyffredinol i wneud newidiadau i drwyddedau darlledu drwy gyflwyno hysbysiad amrywio i'r trwyddedai.[9] Mae'r pŵer hwn yn cael ei adlewyrchu yn

[6] Mae amod y drwydded fel a ganlyn: Rhaid i'r Trwyddedai ddarparu'r Gwasanaeth Trwyddedig a nodir yn yr Atodiad ar gyfer cyfnod y drwydded, a rhaid iddo sicrhau bod y Gwasanaeth Trwyddedig yn gwasanaethu cymaint o'r ardal drwyddedig fel sy'n rhesymol yn ymarferol am y tro.

[7] Byddem yn ymchwilio i unrhyw dorri amodau o'r fath yn unol â'n Canllawiau Gorfodi. Gweler Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu Ofcom (3 Ebrill 2017); https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/31942/general-procedures.pdf

[8] Adran 109-111 o Ddeddf 1990.

[9] Adran 86(5) o Ddeddf 1990. Mae Deddf 1990 yn darparu, os bydd Ofcom yn credu y byddai'n rhesymol yn ymarferol i wasanaeth cenedlaethol gael ei ddarparu i ardal ychwanegol sydd y tu allan i'r ardal sylfaenol sydd wedi'i nodi yn y broses ddyfarnu, y gall Ofcom fynnu bod y trwyddedai'n darparu'r gwasanaeth ar gyfer yr ardal ychwanegol honno (adran 106(3)). Fodd bynnag, nid yw Deddf 1990 yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer ceisiadau i leihau'r ardal sylfaenol.

Amod 23 y Drwydded Darlledu. Rhaid i ni roi cyfle rhesymol i'r trwyddedai gyflwyno sylwadau cyn gwneud yr amrywiad (Amod 23(1)(b) o'r Drwydded Darlledu).[10]

## Trwydded telegraffiaeth ddi-wifr talkSPORT

2.20 Mae gan talkSPORT hefyd drwydded a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 (**"Trwydded Telegraffiaeth Ddi-wifr"**) sy'n rhoi'r awdurdod iddo sefydlu, gosod a defnyddio gorsafoedd trosglwyddo radio a/neu gyfarpar radio (hynny yw, trosglwyddyddion) yn yr un lleoliadau ag a awdurdodwyd o dan ei Drwydded Darlledu (hynny yw, 22 safle i gyd) ar gyfer darlledu'r gwasanaeth darlledu sain a ddisgrifir yn y Drwydded Darlledu.

2.21 Mae Amod 3 y Drwydded Telegraffiaeth Ddi-wifr yn caniatáu i Ofcom amrywio'r drwydded hon mewn amgylchiadau penodol, sy'n cynnwys pan fydd yr amrywiad "ar gais y Trwyddedai, neu gyda chydsyniad y Trwyddedai"[11], ac yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i'r trwyddedai yn ysgrifenedig neu drwy hysbysiad cyffredinol yn unol ag Atodlen 1 paragraff 6 o'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Mae gan Ofcom ddisgresiwn cyffredinol o dan baragraff 6 Atodlen 1 o'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i gytuno i amrywio trwyddedau, ond mae rheolau cyfreithiol yn cyfyngu ar y disgresiwn hwnnw. Yn benodol, yn unol â pharagraff 6A Atodlen 1 o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, rhaid cyfiawnhau unrhyw amrywiad ar drwydded telegraffiaeth ddi-wifr yn wrthrychol.

# Defnyddio ein dyletswyddau statudol i asesu cynigion talkSPORT

## Tasg Ofcom

2.22 Ac ystyried y gofyniad a nodir yn Amod 2(1) o'r Drwydded Darlledu (gweler paragraff 3.8 uchod), dyma'r prif gwestiynau y mae angen i ni roi sylw iddynt:

2.23 a yw'n dal yn rhesymol yn ymarferol i talkSPORT wasanaethu **93%** o boblogaeth oedolion y DU gyda'i wasanaeth radio analog; a

2.24 os nad yw'r lefel honno o ddarpariaeth yn rhesymol yn ymarferol mwyach, a fyddai effaith gyfun y mesurau y mae talkSPORT wedi cynnig eu cymryd (hynny yw, darpariaeth lai i **89.9%** o boblogaeth oedolion y DU), yn bodloni'r trothwy "rhesymol yn ymarferol" a nodir yn amodau'r drwydded.

2.25 Mae'r trothwy "rhesymol yn ymarferol" yn golygu cael cydbwysedd er mwyn sicrhau cymesuredd. Yn syml, ar un ochr rydyn ni'n rhoi unrhyw gostau ac anfanteision eraill sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth ar lefel bresennol y ddarpariaeth ac, ar yr ochr arall, natur a maint y risgiau sy'n gysylltiedig pe bai'r ddarpariaeth bresennol o'r gwasanaeth yn

[10] Mae'r amod hwn o'r drwydded yn adlewyrchu adran 86(5)(b) o Ddeddf 1990. Mae amod 24 y Drwydded Darlledu yn nodi ym mha ffordd y cawn roi unrhyw hysbysiad amrywio, gan gynnwys ar ffurf electronig (yn amodol ar y gofynion a nodir yn Adrannau 395 a 396 o Ddeddf 2003).
Mae'r amod hwn o'r drwydded yn adlewyrchu Atodlen 1, paragraff 8(2)(a) o Ddeddf TDd 2006.
[11] Mae'r amod hwn o'r drwydded yn adlewyrchu Atodlen 1, paragraff 8(2)(a) o Ddeddf TDd 2006.

cael ei lleihau. Wrth ystyried y ffactorau amrywiol sy’n gysylltiedig â chael cydbwysedd, mae angen i ni ystyried ein dyletswyddau statudol.

## Penderfyniad Ofcom wrth ystyried ein dyletswyddau statudol

2.26 Rydym wedi ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad ac wedi penderfynu cymeradwyo cais lleihau talkSPORT am y rhesymau a nodir yn adran 3 y ddogfen hon. Rydym yn credu bod ein penderfyniad yn cydymffurfio â’r dyletswyddau statudol. Yn gryno, dyma’r rhesymau pam:

a) Rydym o’r farn nad yw’n rhesymol yn ymarferol mwyach i’r Trwyddedai barhau i ddarlledu’r gwasanaeth o 22 safle. Mae’r Trwyddedai wedi dangos y gall barhau i wasanaethu 89.9% o’r DU drwy gyfrwng y deunaw safle trosglwyddyddion sy’n weddill.

b) Yn yr amgylchiadau penodol hyn, rydyn ni o’r farn y byddai darlledu’r gwasanaeth trwyddedig i 89.9% o boblogaeth oedolion y DU yn dal i sicrhau’r defnydd gorau posibl o sbectrwm;

c) Mae sicrhau bod talkSPORT ar lwyfannau amgen (gan gynnwys radio digidol, teledu[12] a’r rhyngrwyd) yn debygol o fod yn ddigon i gynnal lluosogrwydd darparwyr radio a gwasanaethau radio yn yr ardaloedd daearyddol y mae’r cynigion yn effeithio arnynt; a

d) Mae’r ffigurau RAJAR a ddarparwyd gan talkSPORT yn eu cynnig yn dangos gostyngiad parhaus yn y sawl sy’n gwrando ar y gwasanaeth talkSPORT ar lwyfan AM

2.27 Byddai’n rhesymol cyfiawnhau dileu’r cyfeiriad at safleoedd trosglwyddyddion y mae talkSPORT yn cynnig eu cau o’i Drwydded Telegraffiaeth Ddi-wifr (gan ddod i rym o’r dyddiad y mae talkSPORT yn bwriadu eu cau) gan y byddai hyn yn addasu’r drwydded hon i gyd-fynd â’r Drwydded Darlledu.

## Asesiad o’r effaith ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

2.28 Mae’r dadansoddiad a gyflwynir yn ein dogfen ymgynghori yn asesiad effaith yn unol â’r diffiniad yn adran 7 o Ddeddf 2003. Mae asesiadau effaith ac asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn ffordd werthfawr o asesu’r gwahanol opsiynau ar gyfer rheoleiddio, a dangos pam y dewiswyd yr opsiwn sy’n cael ei ffafrio. Maent yn rhan o’r broses o lunio polisi ar sail yr arferion gorau. Fel y nodwyd yn ein dogfen ymgynghori, er ein bod wedi nodi effeithiau posibl ar grwpiau penodol â nodweddion gwarchodedig, roeddem o’r farn bod digon o fesurau lliniaru yng nghyd-destun y penderfyniad hwn. Cawsom un ymateb i’r ymgynghoriad ar effaith diffodd y gwasanaeth AM a oedd yn canolbwyntio ar fforddiadwyedd gwrando ar wasanaeth talkSPORT ar lwyfannau eraill (gweler paragraff 4.9(c)).

2.29 Yng nghyd-destun unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, neu ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, nid oeddem o’r farn bod hynny’n berthnasol yn yr

[12] Rydym yn cydnabod na fydd y gwasanaeth talkSPORT ar gael ar Freeview ym mhob lleoliad lle mae talkSPORT yn bwriadu tynnu eu trosglwyddydd AM.

achos hwn gan nad yw'r gwasanaeth talkSPORT yn darlledu unrhyw ran o'i gynnwys yn Gymraeg ar hyn o bryd. Ar ben hynny, fe wnaethom ofyn cwestiwn ymgynghori penodol ynglŷn â'r effaith bosibl hon ac ni chawsom unrhyw ymatebion.

# 3. Dadansoddiad a phenderfyniad Ofcom

3.1 mae talkSPORT wedi cynnig cau pedwar safle trosglwyddydd: Dumfries (Dumfries and Galloway), Kingston upon Hull (East Riding of Yorkshire), Fern Barow (Bournemouth) a Greenside Scalp (Tayside). Nododd talkSPORT fod y pedwar safle trosglwyddydd hyn yn safleoedd sydd eisoes yn anhyfyw.

3.2 Mae talkSPORT yn datgan eu bod yn ymrwymo i roi gwybod i wrandawyr y bydd cau'r safleoedd a nodir yn effeithio arnynt, gan gyfathrebu'n benodol ac yn amserol gyda'r nod o symud cynulleidfaoedd i DAB, Teledu digidol a llwyfannau ar-lein.

3.3 Mae Ofcom wedi cyfrifo y byddai'r newidiadau hyn yn golygu bod darpariaeth ei wasanaeth trwyddedig i boblogaeth oedolion (15 oed a hŷn) yn y DU yn gostwng o 93% i 89.9% ac y byddai 1.7 miliwn o oedolion yn y DU yn colli mynediad at y gwasanaeth AM.

3.4 Mae talkSPORT o'r farn y bydd diffodd y pedwar trosglwyddydd yn y cais yn arwain at ostyngiad cymharol fach yng nghyfran y gwrandawyr na fyddant yn gallu derbyn y gwasanaeth mwyach ar AM, a bydd y gwasanaeth yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd yn parhau i gael ei darparu drwy DAB ac ar draws llwyfannau eraill sydd ar gael.

3.5 Mae talkSPORT yn nodi bod ei ddadansoddiad o ddata RAJAR Ch3 2022 yn cadarnhau'r gostyngiad hirdymor a pharhaus yn y sawl sy'n gwrando ar AM a bod y safleoedd sy'n cael eu blaenoriaethau ar gyfer eu cau yn parhau felly yn sgil y data diweddaraf.[13] Ar sail yr amcanion presennol, mae talkSPORT yn datgan y gallai ei rwydwaith AM fod yn gwbl anymarferol erbyn dechrau 2026.

3.6 Mae talkSPORT wedi cyfrifo, gan ddefnyddio data RAJAR sy'n canolbwyntio ar oriau gwrando'r gwasanaeth talkSPORT, a nodir yn y graff ar dudalen 1 ei gynnig (sydd i'w weld yn Atodiad 6 yr ymgynghoriad), gostyngiad o 50% yn oriau gwrando AM yn ystod y tair blynedd diwethaf. I weld cynnig talkSPORT yn llawn, dilynwch y ddolen uchod.

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.7 Ar 17 Chwefror 2023,[14] fe wnaethom gyhoeddi dogfen ymgynghori yn nodi ein bod yn bwriadu derbyn cynigion talkSPORT sy'n golygu cau'r pedwar safle (, o ystyried y gostyngiad mewn gwrando analog a nifer y gwrandawyr sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig.

3.8 Cawsom chwe ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ac roedd tri ohonynt yn gyfrinachol. Mae'r ymatebion oedd ddim yn gyfrinachol ar gael ar ein gwefan.[15]

[13] ymateb talkSPORT i gais Ofcom am ragor o wybodaeth -Atodiad 6: ymateb talkSPORT i gwestiynau a ofynnwyd gan Ofcom

[14] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0018/254061/Consultation-talkSPORT-proposals-reduce-AM.pdf

3.9 Roedd pedwar ymatebydd (dau ymatebydd cyfrinachol, a Rhys Jenkins ac Oliver Mundell ASA) yn anghytuno â chynigion talkSPORT. Dyma oedd y prif bwyntiau a gafodd eu codi gan yr ymatebwyr hyn:

3.10 Dywedodd Rhys Jenkins ei bod yn rhwystredig na fyddai'n gallu gwrando ar lawer o orsafoedd radio yn ei gar yn sgil y newidiadau posibl i drosglwyddydd Wrekenton talkSPORT yn Gateshead. Holodd, gan nodi Absolute Radio yn gadael AM ym mis Ionawr eleni a bwriad talkSPORT i leihau ei wasanaeth AM, sut y byddai pobl yn gallu gwrando ar y gwasanaeth talkSPORT yn Newcastle ar radios ceir hŷn. Hefyd, gofynnodd a allai talkSPORT archwilio i drwydded FM yn hytrach na thrwydded AM.

3.11 Dywedodd Oliver Mundell ASA (Aelod o Senedd yr Alban dros Swydd Dumfries) nad yw'n cytuno â diffodd trosglwyddydd Dumfries ar hyn o bryd, gan fod diffyg DAB a chysylltedd rhyngrwyd a symudol gwael yn golygu y byddai llai o gynnig ar gael i wrandawyr. Dywedodd hefyd fod angen pwyso a mesur cydraddoldeb mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig ac nad yw wedi'i argyhoeddi bod canolbwyntio ar gost a niferoedd y gwrandawyr yn gwneud hynny.

3.12 Dywedodd un ymatebydd cyfrinachol nad yw cynlluniau talkSPORT i leihau'r ddarpariaeth yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ar hyn o bryd. Ond, roeddent yn nodi mai dim ond at saith gorsaf radio y mae ganddynt fynediad dibynadwy, a hynny'n cynnwys talkSPORT. Dywedodd yr ymatebydd hwn fod y gostyngiad parhaus yn y Donfedd Ganolig yn lleihau nifer y gorsafoedd y gallent wrando arnynt. Mae rhai o'r ardaloedd y maent wedi byw ynddynt wedi bod â signal DAB gwael neu weithiau heb signal DAB o gwbl. Soniodd yr ymatebydd am golli Absolute Radio ar y Donfedd Ganolig yn ddiweddar ac aeth yn ei flaen i ddweud y byddai'n rhy ddrud i uwchraddio i'r llwyfan hwn hyd yn oed pe bai signal DAB ar gael. Er bod yr ymatebydd yn gallu gwrando ar y gwasanaeth ar-lein, byddai angen iddo fod o fewn y ddarpariaeth band eang gan fod y cysylltiadau ffonau symudol yn anghyson a bod cost data symudol yn uchel. Felly, eu hunig ddewis yw rhoi'r gorau i wrando ar orsafoedd sy'n rhoi'r gorau i'r Donfedd Ganolig.

3.13 Dywedodd ymatebydd cyfrinachol arall nad ydynt yn gwrando'n rheolaidd ar talkSPORT ond eu bod yn gwrando ar orsafoedd AM eraill, ac maent yn poeni y bydd costau gweithredu gwasanaeth AM yn cynyddu wrth i nifer y gweithredwyr gwasanaethau AM ostwng. Felly, roedd yr ymatebydd yn dadlau y byddai caniatáu i talkSPORT leihau ei ddarpariaeth AM yn cael effaith niweidiol ar yr holl weithredwyr AM. Mae'r ymatebydd yn nodi'r argymhelliad yn astudiaeth Adolygiad Sain a Digidol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i symud AM o 2021 ymlaen, ond mae'n credu nad yw hyn yn cael ei ystyried gan mai'r ddadl fwyaf cyffredin a ddefnyddir yn erbyn gwasanaethau AM yw eu defnydd uchel o ynni, sydd o safbwynt y gweithredwyr ond sydd ddim yn ystyried y defnydd ynni "cyffredinol". Aethant ymlaen i egluro "er bod y costau ynni ar gyfer gweithredu trosglwyddydd AM yn uwch na'r costau ar gyfer gweinydd gwe sy'n cynnig ffrwd radio rhyngrwyd IP, mae gan yr opsiwn olaf ddefnydd pŵer cyffredinol sylweddol uwch o'i gymharu â'r setiau AM cyffredin sy'n cael eu pweru gan fatri. Y rheswm am hyn yw bod yn rhaid ystyried yr holl ddosbarthiad IP, sydd o'i natur ddim yn gyfrwng darlledu. Mae anfon ffrwd i bob defnyddiwr unigol yn defnyddio llawer o ynni mewn

canolfanau data, ISPs, a ffrydyddion defnyddwyr a derbynwyr ffrwd IP." Felly, maent yn awgrymu bod y ddadl bod AM yn defnyddio mwy o ynni yn anghywir. Roedd pwynt olaf yr ymatebydd yn ymwneud â phwysigrwydd gallu darlledu o AM mewn argyfwng neu yn dilyn trychineb. Dywedodd yr ymatebydd nad oedd yn gwrthwynebu'r lleihad yng ngwasanaeth talkSPORT ond ei fod yn poeni am yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar y sector darlledu AM ehangach yn y DU.

3.14 Mewn ymateb i'r cwestiwn yn ymwneud â'r effaith ar y Gymraeg, cytunodd Rhys Jenkins na fyddai yna effaith ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg nac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gan nad yw'r cynnig yn ymwneud ag ardal ddarpariaeth AM. Ar ben hynny, nid yw'r un o'r trosglwyddyddion sy'n cael eu heffeithio wedi'u lleoli yng Nghymru. Nododd un o'r ymatebwyr cyfrinachol eu bod yn ansicr ynglŷn â sut mae'r cwestiwn hwn yn berthnasol gan nad ydynt yn ymwybodol o raglenni darlledu talkSPORT yn y Gymraeg. Fodd bynnag, maent yn ymwybodol bod rhywfaint o orlif o orsafoedd yn Lloegr i Gymru ac i'r gwrthwyneb a bod cau safleoedd trosglwyddyddion y naill ochr a'r llall i'r ffin yn debygol o gael effeithiau anuniongyrchol ar y rheini sy'n dal i ddibynnu ar ddarllediadau analog ar gyfer radio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

3.15 Roedd un ymatebydd cyfrinachol yn cytuno y dylid caniatáu i talkSPORT gau'r pedwar safle trosglwyddydd, ond nid am y rhesymau a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Rhoddodd yr ymatebydd hwn sylwadau am ddyfodol darlledu AM, a mynegodd bryderon am bwyntiau ffeithiol a dadleuon a wnaeth Ofcom yn yr ymgynghoriad. Roedd y dadleuon a'r materion hyn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

3.16 Dywedodd ymatebydd cyfrinachol arall nad oedd ganddo unrhyw broblemau gyda chynnig talkSPORT i adael ei amleddau Ton Ganolig. Cododd yr ymatebydd y cwestiwn "Oes gan Ofcom bolisi ynglŷn â dyfodol defnyddio tonfedd ganolig yn y DU?" Roedd y cwestiwn hwn a'r sylwebaeth ddilynol y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

3.17 Isod, rydym yn asesu'r dadleuon a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr ac yn amlinellu ein casgliadau.

## Asesiad a chasgliadau Ofcom

### Cydymffurfio ag amodau'r drwydded

3.18 Fel y nodwyd eisoes yn Adran 3 (paragraff 3.8), Amod 2(1) o'r Drwydded Darlledu, mae angen sicrhau bod y gwasanaeth trwyddedig yn gwasanaethu cymaint o'r DU "fel sy'n rhesymol yn ymarferol am y tro."

3.19 Yn ein barn ni, y tu hwnt i ystyriaethau ynghylch yr hyn sy'n bosibl yn dechnegol ac yn logistaidd o ran darpariaeth trosglwyddiad (er enghraifft, argaeledd safleoedd trosglwyddiad addas), y trothwy "rhesymol yn ymarferol" yw sicrhau cymesuredd. Yn syml, ar un ochr rydyn ni'n rhoi unrhyw gostau ac anfanteision eraill sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth ar lefel bresennol y ddarpariaeth ac, ar yr ochr arall, natur a maint y risgiau sy'n gysylltiedig pe bai'r ddarpariaeth bresennol o'r gwasanaeth yn cael ei lleihau.

3.20 Yn ôl amcangyfrifon Ofcom, ni fyddai tua 3.1% o boblogaeth oedolion y DU (1.7 miliwn o oedolion 15 oed a hŷn) yn gallu cael talkSPORT ar AM mwyach.

3.21 Rydym hefyd yn nodi'r dirywiad tymor hir ym mhoblogrwydd gwrando ar y band AM, ac y byddai llawer o'r rheini a fyddai'n colli'r gallu i gael gafael ar signal talkSPORT AM yn gallu parhau i dderbyn talkSPORT drwy radio digidol DAB cenedlaethol. Yn yr ychydig o ardaloedd lle nad yw derbyniad amlblecs Digital One cenedlaethol ar gael, a lle mae darpariaeth DAB yn arbennig o isel, mae rhagor o ddewisiadau ar gael i wrando ar-lein, neu drwy'r teledu (mae'r orsaf ar gael ar blafformau Freeview, Sky a Virgin Media mewn ardaloedd penodol).

3.22 Yn ogystal, mae Ofcom yn nodi bod talkSPORT wedi ymrwymo i roi gwybod i wrandawyr yr effeithir arnynt "gan gyfathrebu'n effeithiol, yn benodol ac yn amserol gyda'r nod o symud cynulleidfaoedd i DAB, teledu digidol a phlatfformau ar-lein." Mae Ofcom o'r farn y bydd y dull hwn yn helpu i liniaru dieithrio'r gwrandawyr hyn drwy roi digon o amser iddynt ystyried a mudo i'r platfform mwyaf priodol er mwyn iddynt barhau i wrando ar y gwasanaeth talkSPORT.

3.23 Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn codi pwyntiau oedd yn mynd y tu hwnt i gwmpas y Datganiad hwn.

3.24 Mewn ymateb i gwestiwn Rhys Jenkins ynglŷn ag argaeledd trwydded FM yn hytrach nag AM, gallwn gadarnhau bod trwyddedau radio masnachol analog cenedlaethol o'r fath yn cael eu dyfarnu'n gystadleuol ac na ellir neilltuo sbectrwm i ddarparwr gwasanaeth penodol.

3.25 Rydym wedi ystyried y sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom, oedd yn cynnwys dadleuon mewn perthynas â'r effaith ar wrandawyr. Rydym yn rhoi sylw i'r sylwadau hyn isod wrth gydbwyso'r effaith benodol y bydd y penderfyniad hwn yn ei chael arnynt, o'i gymharu â'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar y darlledwr:

3.26 Nodwn fod yr ymateb a dderbyniwyd gan Rhys Jenkins yn cyfeirio at drosglwyddydd (Wrekenton) nad oedd yn cael ei ystyried yn yr ymgynghoriad hwn ond sy'n rhan o gynigion diffodd talkSPORT ar gyfer y dyfodol. Rydym yn cydnabod ei sylw ar yr effaith ar wrandawyr yn yr ardal hon ond yn nodi nad yw'r pryderon a godwyd yn berthnasol i'r cynnig penodol hwn. Yn gyffredinol, rydym yn credu y bydd talkSPORT yn parhau i ddarparu "darpariaeth genedlaethol dda ar AM", a bydd y gwasanaeth trwyddedig yn parhau i ddarlledu i 89.9% o boblogaeth oedolion y DU. Rydym hefyd yn nodi y byddai llawer o'r rheini a fyddai'n colli signal AM talkSPORT yn gallu parhau i dderbyn talkSPORT drwy radio digidol DAB cenedlaethol neu drwy'r llwyfannau eraill rydym wedi tynnu sylw atynt.

3.27 Nodwn fod yr ymateb a dderbyniwyd gan Oliver Mundell ASA yn canolbwyntio'n benodol ar y trosglwyddydd yn Dumfries and Galloway. Er ein bod yn derbyn bod darpariaeth DAB yn yr ardal hon yn isel ac nad yw'r gwasanaeth ar gael yn eang ar Freeview, rydym yn cydnabod y byddai gwrandawyr yn dal i allu cael y gwasanaeth hwn ar y rhyngrwyd, er nad

yw’r gwasanaeth talkSPORT yn darparu rhaglenni wedi’u targedu’n benodol at wrandawyr yn ardal Dumfries and Galloway.

3.28 Rydym yn nodi’r ymatebydd cyfrinachol a gododd bryderon ynglŷn â sut gallai’r penderfyniad hwn effeithio ar gostau gweithredu gwasanaethau AM eraill, pe bai cynnig talkSPORT yn cael ei gymeradwyo gan Ofcom. Mae cylch gwaith Ofcom i wneud y penderfyniad hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod Ofcom yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol (gweler adran 4.10 ymlaen) ac a yw’n rhesymol ymarferol i talkSPORT barhau i wasanaethu 93% o boblogaeth oedolion y DU ar AM. Felly, nid yw’r cwestiwn ynglŷn â darlledwyr AM eraill yn berthnasol i ystyriaeth Ofcom ar y mater hwn. Er ein bod yn nodi nad oes unrhyw ddarlledwr AM arall wedi codi pryderon ynglŷn â’r mater hwn, nac wedi darparu unrhyw dystiolaeth o’r posibilrwydd hwn mewn ymateb i’r ymgynghoriad.

3.29 Mae ein casgliad yn dilyn yr ymatebion hyn i’r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar yr effaith y bydd y penderfyniad hwn yn ei chael ar y darlledwr ac yn cydbwyso’r manteision hyn ochr yn ochr â’r risgiau i wrandawyr fydd ddim yn gallu cael y gwasanaeth ar lwyfan AM.

3.30 Yn ei gynnig, dywedodd talkSPORT nad oedd y pedwar safle trosglwyddydd roedd am eu cau yn fasnachol hyfyw erbyn hyn. Wrth wneud yr honiad hwn, fe wnaeth talkSPORT asesu gwerth masnachol parhau i weithredu’r safleoedd trosglwyddyddion hyn drwy’r oriau gwrando yn erbyn cost gweithredu pob safle trosglwyddydd perthnasol. Mae Ofcom yn cytuno bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan talkSPORT yn dangos gostyngiad yn y sawl sy’n gwrando ar lwyfan AM, ac mae Ofcom yn ymwybodol o’r costau sylweddol sy’n gysylltiedig â chynnal rhwydwaith trosglwyddyddion AM, yn enwedig wrth ystyried y cynnydd presennol yng nghostau ynni.

3.31 Er ein bod yn cydnabod y bydd y penderfyniad hwn yn arwain at ddadfreinio gwrandawyr ar lwyfan AM, mae dadansoddiad Ofcom wedi nodi y bydd cyfran sylweddol o’r gwrandawyr yn dal i allu cael y gwasanaeth ar amrywiaeth o lwyfannau gwahanol. Ein casgliad yw y byddai’r mesurau lliniaru hyn, i ryw raddau, yn gwrthbwyso’r ffaith bod gwrandawyr AM wedi’u difreinio’n llwyr ar y rhwydwaith. Ar ben hynny, rydym yn cytuno’n sylfaenol nad yw’n rhesymol ymarferol i talkSPORT barhau i gynnal a chadw’r safleoedd trosglwyddydd hyn ar gost sylweddol, pan fo’r ffigurau gwrando a ddarparwyd ganddynt i Ofcom yn y cynnig yn dangos y gostyngiad sylweddol mewn gwrando analog a chynnydd yn y gwrando ar lwyfannau eraill.

3.32 [Nid ydym wedi ystyried pwyntiau sy’n mynd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad.

## Effaith ar gynulleidfaoedd

3.33 Ar sail yr wybodaeth a roddwyd i Ofcom gan talkSPORT, byddai’r newidiadau arfaethedig yn cael yr effeithiau canlynol:

a) byddai’r newidiadau arfaethedig yn golygu y byddai tua 1.7 miliwn16 o oedolion 15 oed a hŷn yn y DU yn colli’r gallu i gael signal AM talkSPORT;

[16] Cafodd y ffigur hwn ei gyfrifo drwy ddefnyddio ffigyrau poblogaeth Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr o ddata cyfrifiad 2001

b) o’r rhain, byddai tua 1.3 miliwn [17]yn gallu gwrando ar talkSPORT ar radio digidol DAB yn lle hynny;

c) felly, byddai tua 270,497[18] o oedolion 15 oed a hŷn yn y DU yn colli darpariaeth AM ac ni fyddai ganddynt yr opsiwn o wrando ar talkSPORT ar radio digidol DAB. Fodd bynnag, maen nhw’n debygol o allu gwrando ar talkSPORT drwy’r rhyngrwyd a phlatfformau digidol eraill.

d) yn achos Dumfries, mae mapiau a ddarperir gan talkSPORT yn dangos na fydd cael gwared â’r trosglwyddydd Dumfries yn cael ei liniaru gan ddarpariaeth DAB. Gwelwn o ffigurau gwrando talkSPORT [19] yn Ardal Gwasanaeth Targed Dumfries (y “TSA”) mai dim ond cyfran fach o wrandawyr sy’n defnyddio’r gwasanaeth ar AM. Mae AM yn cyfrif am 6% rheini sy’n gwrando yn ardal ddarlledu AM Dumfries, tra bo 75% o’r rheini sy’n gwrando ar AM yn yr ardal n gwneud hynny yn y car. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod yn uwch mewn ardaloedd TSA yn yr Alban o gofio nad oes llawer o ddarpariaeth DAB a Freeview. Byddai hyn yn golygu mai’r rhyngrwyd yw’r prif blatfform ar gyfer cael gafael ar y gwasanaeth.

3.34 Gwnaeth Oliver Mundell ASA y pwynt y byddai gan wrandawyr yn yr ardal hon lai o wasanaethau pe bai’r cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo oherwydd y cysylltiad rhyngrwyd a symudol gwael yn yr ardal. Er ein bod yn cydnabod bod lle i wella’r ddarpariaeth band eang sefydlog a symudol yn ne’r Alban, mae adroddiad Cysylltu’r Gwledydd diweddaraf Ofcom yn dangos bod y darlun wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[20]

3.35 Yn etholaeth Mr Mundell, sef swydd Dumfries, roedd darpariaeth 4G ar draws y pedwar MNO yn 62% ym mis Medi 2022 (ac yn 89% ar gyfer o leiaf un darparwr), i fyny o 57% yn 2019. Mae hyn yn debygol o wella ymhellach dros y blynyddoedd nesaf gyda rhagor o waith adeiladu wedi’i gynllunio yn ne’r Alban fel rhan o raglen mewnlenwi 4G Llywodraeth yr Alban a thrwy Rwydwaith Gwledig a Rennir Llywodraeth y DU.

3.36 Yn yr un modd, o ran band eang sefydlog, roedd gan 89% o adeiladau yn swydd Dumfries fynediad at gysylltiad cyflym iawn o o leiaf 30Mbit yr eiliad ym mis Medi 2022, i fyny o 85% dair blynedd yn ôl yn 2019. Gallai ymyriadau cyhoeddus fel rhaglen Cyrraedd 100% Llywodraeth yr Alban (sydd yn rhaglen gyflym iawn ond sydd yn ymarferol wedi arwain at gyflymderau gigabit yn lotiau’r De a’r Canolbarth) a chynllun Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU (a chynlluniau talebau a datblygiadau diweddar eraill fel Bargeinion Rhanbarthau Dinas gydag elfennau digidol) helpu i wella hyn ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

3.37 O ganlyniad, rydym o’r farn bod darpariaeth band eang addas yn ne’r Alban ar hyn o bryd i alluogi gwrandawyr i gael gafael ar talkSPORT dros y rhyngrwyd, ac rydym yn gobeithio gweld rhagor o welliannau dros y blynyddoedd i ddod.

---

[17] Cafodd y ffigur hwn ei gyfrifo drwy ddefnyddio data cyfrifiad 2011

[18] Cafodd y ffigur hwn ei gyfrifo drwy ddefnyddio data cyfrifiad 2011

[19] I gael rhagor o wybodaeth am ddadansoddiad talkSPORT o ffigurau gwrando yn yr ardal hon, edrychwch ar y ddolen o’r enw “nifer gwrandawyr talkSPORT yn Dumfries ” yn Atodiad 6.

[20] Data o Cysylltu'r Gwledydd 2022: Adroddiad rhyngweithiol.

3.38 Dadleuodd Oliver Mundell ASA y byddai gan wrandawyr yn yr ardal hon lai o wasanaethau pe bai'r cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo oherwydd y cysylltiad rhyngrwyd a symudol gwael yn yr ardal. Credwn fod darpariaeth rhyngrwyd a ffonau symudol addas yn yr ardal hon i wrandawyr allu cael gafael ar wasanaeth talkSPORT.[21] Wrth ddod i'n penderfyniad, roeddem o'r farn bod gwrandawyr yn gyffredinol yn gallu cael talkSPORT drwy ap ar ffôn symudol, a fydd yn caniatáu i wrandawyr gael gafael ar y gwasanaeth ar draws darpariaeth symudol addas. Rydym hefyd yn nodi bod llawer o geir bellach yn ei gwneud yn hawdd iawn gwrando drwy ffonau symudol, ac mae modd prynu addasyddion hefyd er mwyn i geir heb Bluetooth allu cael gafael ar gynnwys drwy ffonau symudol.[22] Ar ben hynny, mae'r gwasanaeth talkSPORT ar gael mewn cartrefi drwy seinyddion clyfar neu ar gyfrifiaduron drwy gysylltiad band eang.

a) Fe wnaethom hefyd ystyried yr ymatebydd cyfrinachol a oedd yn honni nad oeddent yn gallu gwrando ar wasanaethau AM sy'n diffodd eu gwasanaethau ar y llwyfan AM, er gwaetha'r ffaith bod y gwasanaeth ar gael ar DAB, a hynny oherwydd y costau a oedd yn gysylltiedig ag uwchraddio i'r llwyfan hwn (ac o ran cael gafael ar y cynnwys ar-lein oddi wrth gysylltiad band eang dibynadwy oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â data symudol). Yng nghyd-destun fforddiadwyedd derbynyddion DAB, cafodd ein dadansoddiad o effaith economaidd-gymdeithasol bosibl y penderfyniad hwn ei ystyried fel rhan o'n Safbwynt Rhagarweiniol. Er ein bod yn cydnabod y gallai gwrando ar wasanaeth talkSPORT ar lwyfannau eraill arwain at wariant ychwanegol bach i rai gwrandawyr, nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a fyddai'n awgrymu bod hyn yn ffactor i nifer sylweddol o unigolion ar draws y DU. Rhaid i Ofcom gydbwyso effaith ein penderfyniadau yn unol â'n dyletswyddau statudol, gan ganolbwyntio ar y cynigion a gyflwynwyd gan talkSPORT yn erbyn yr ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad. Yng nghyd-destun y cydbwyso hwn, fel y nodwyd yn flaenorol, rydym yn ymwybodol o'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â chynnal rhwydwaith AM yn erbyn cefndir o ostyngiadau sylweddol mewn gwrandawyr ar AM ac y byddai'n anghymesur mynnu bod talkSPORT yn cynnal y trosglwyddyddion er mwyn i'r holl wrandawyr allu parhau i ddefnyddio'r gwasanaeth ar lwyfan AM. [ALTERNATIVE WORDING SUGGESTED BY NEIL: Er ein bod yn cydnabod y gallai mynediad at lwyfannau amgen fod yn anfforddiadwy i rai, nid oes gennym dystiolaeth i awgrymu bod hyn yn gyffredin yn yr ardaloedd lle na fydd talkSPORT ar gael mwyach ar AM (neu mewn mannau eraill), ac o'r herwydd, rydym o'r farn y byddai'n anghymesur mynnu bod talkSPORT yn cynnal costau darlledu AM parhaus yn y safleoedd perthnasol fel na fydd unrhyw wrandawyr o'r fath yn colli mynediad at y gwasanaeth."

## Asesu yn erbyn dyletswyddau statudol Ofcom

3.39 Fel y nodwyd yn Adran 3, wrth ystyried pe byddai talkSPORT yn parhau i gydymffurfio ag amodau ei drwydded, mae angen i ni hefyd ystyried dyletswyddau statudol ehangach Ofcom.

[21] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0033/249288/connected-nations-scotland.pdf
[22] https://carsoundpro.com/how-to-play-music-from-phone-to-car-without-aux-or-bluetooth/

3.40 Prif ddyletswyddau Ofcom, fel y'u nodwyd yn adran 3 o Ddeddf 2003, yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion cyfathrebu; a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth. Mae'n rhaid i Ofcom hefyd sicrhau'r canlynol( ymhlith pethau eraill):

3.41 y gwneir y defnydd gorau posib o delegraffiaeth ddi-wifr y sbectrwm electromagnetig;

3.42 bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac wedi'u cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau; a

3.43 cynnal amrywiaeth ddigonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol.

3.44 Wrth ystyried yr angen i sicrhau'r defnydd gorau posibl o sbectrwm, er ein bod yn cydnabod y byddai gweithredu cynigion talkSPORT yn golygu na fyddai tua 3.1% o boblogaeth oedolion y DU yn gallu cael talkSPORT ar ei rwydwaith AM mwyach, byddai talkSPORT yn parhau i ddefnyddio'r sbectrwm perthnasol i ddarlledu i gyfran uchel (89.9%) o boblogaeth oedolion y DU. Felly, yn yr amgylchiadau penodol hyn, rydyn ni o'r farn y byddai cynnig talkSPORT i barhau i ddarlledu ei wasanaeth trwyddedig i 89.9% o boblogaeth oedolion y DU yn dal i sicrhau'r defnydd gorau posibl o sbectrwm;

3.45 O ran yr angen i sicrhau lluosogrwydd gwasanaethau a darparwyr, nodwn fod Ofcom yn trwyddedu amrywiaeth eang o wasanaethau teledu a radio ar draws y DU, ar amrywiaeth o blatfformau gwahanol, gydag amrywiaeth o fformatau rhaglenni gwahanol. Fel y nodwyd yn flaenorol, byddai'r mwyafrif helaeth o wrandawyr talkSPORT y mae ei gynigion yn effeithio arnynt yn gallu ail-diwnio i'r gwasanaeth ar radio DAB cenedlaethol. Rydym hefyd yn nodi y byddai argaeledd talkSPORT ar blatfformau darlledu amgen (h.y. ar blatfformau Freeview, Sky a Virgin Media) a'r rhyngrwyd yn cyfrannu ymhellach at liniaru unrhyw effaith niweidiol bosibl ar ddefnyddwyr. Yn olaf, fel y nodir ym mharagraff 4.17(d), rydym yn nodi bod mwy o gwestiwn ynghylch lluosogrwydd yn lleoliad Dumfries and Galloway oherwydd diffyg argaeledd y gwasanaeth talkSPORT ar draws DAB a Freeview, er y byddai gwrandawyr yn yr ardal hon yn dal i allu cael gafael ar y gwasanaeth ar y rhyngrwyd. Mae 17 o wasanaethau analog o hyd mewn rhannau o ardal trosglwyddyddion Dumfries and Galloway, dau wasanaeth DAB a o wasanaethau digidol, y rhan fwyaf ohonynt yn wasanaethau sy'n cael eu darparu gan y BBC.

## Amrywio'r drwydded

3.46 Felly, rydym wedi penderfynu derbyn cynigion talkSPORT a dileu'r cyfeiriad at y pedwar safle trosglwyddyddion y mae talkSPORT wedi cynnig eu cau ar unwaith o'i Drwydded Darlledu a'r Drwydded Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, gan ddod i rym o'r dyddiad pan fydd talkSPORT yn bwriadu eu cau.